

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Glan Gele

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Glan Gele yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle rhoddir blaenoriaeth i les pawb. Mae hon yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae'r awyrgylch cefnogol a chynnes hwn yn helpu bron pob un o'r disgyblion i ymgynefino â bywyd ysgol yn hawdd, ac yn cyfrannu'n sylweddol at ymgysylltiad disgyblion yn yr ysgol a'u parodrwydd i ddysgu. Mae'r perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng disgyblion a staff yn annog pob un o'r disgyblion i ddangos agwedd gyfrifol mewn gwersi ac arddangos ymddygiad rhagorol o gwmpas yr ysgol.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn unigol, gan gynnwys y disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gymorth ar gyfer disgyblion, ac mae cynorthwywyr addysgu medrus yn darparu cymorth defnyddiol mewn sesiynau dynodedig i fynd i'r afael ag anghenion emosiynol a dysgu. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ystod eang o asiantaethau, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol i gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r dull cydweithredol hwn yn galluogi disgyblion i ymgysylltu'n briodol â'u dysgu.

Mae arweinwyr ac athrawon wedi datblygu cwricwlwm sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn defnyddio diwrnodau trochi i ennyn diddordeb disgyblion yn eu gwaith a chaniatáu cyfleoedd iddynt gyfrannu eu syniadau am beth hoffent ei ddysgu. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu. Mae hyn yn cynnwys dewis eang o weithgareddau allgyrsiol cyffrous ac amrywiaeth o ymweliadau addysgol, sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae llawer o staff yn defnyddio holi'n dda i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu gweithgareddau ar gyfer disgyblion sy'n diwallu eu hanghenion dysgu yn ddigon agos nac yn eu herio'n briodol. Nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymgysylltu â dysgu effeithiol yn yr awyr agored wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae arweinwyr a staff yn rhannu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer yr ysgol. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau bod yr ysgol yn llwyddiannus yn ei nodau. Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gref o gryfderau'r ysgol, ac mae'n gweithio'n effeithiol gyda'r pennaeth, y staff, y disgyblion a'r rhieni i gefnogi gwelliant parhaus.

# Argymhellion

**A1** Datblygu profiadau dysgu ymhellach i ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion a darparu her ddigonol mewn dysgu ar draws y cwricwlwm

**A2** Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Glan Gele |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 277 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 211 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 66 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 25.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 26.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 5.3% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 09/09/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/10/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.